# Pwyllgor Gwasanaethau Pobl

## 19 Mawrth 2025

**Yn bresennol:** Mrs J James (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd C George, Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Joy Arkley (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), a Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

(Cyfarfod Rhithiol: 11.00am – 12:15pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Mrs S Hoss a Dr R Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Gofynnwyd am ddosbarthu rhestr o'r hyfforddiant gorfodol i'r Aelodau, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod gwaith ar y gweill ar lunio rhaglen sefydlu Aelodau newydd, sy'n golygu drafftio rhestr o hyfforddiant y gellid ei dosbarthu i bob Aelod yn y dyfodol.

**Nodwyd.**

**5. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar faterion oedd yn ymwneud â chefnogi a datblygu Aelodau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am Adolygiadau o Ddatblygiad Personol ac am Arfarniadau Llywodraeth Cymru ar Berfformiad, Fframwaith Hunanwerthuso Cymorth i Aelodau Cymru ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Hyfforddiant, Sesiynau Hyfforddiant Llywodraeth Cymru, presenoldeb Aelodau, a Datganiadau o Fuddiant.

Dywedodd y Swyddog bod presenoldeb wedi bod yn isel yn sesiwn hyfforddiant ddiwethaf Llywodraeth Cymru, a gofynnodd y Cadeirydd am i

nodyn atgoffa gael ei anfon at yr Aelodau o'r recordiadau oedd ar gael ar-lein, a'r angen i roi gwybod i'r Swyddogion pe bai'r Aelodau yn gwylio'r recordiadau yn eu hamser eu hunain.

O ran y gweithdai yn y dyfodol, gofynnodd Aelod am i ganlyniadau'r gweithdai o ran yr hyn a ddysgwyd ym mhob gweithdy gael eu nodi, er gwybodaeth i'r Aelodau, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, yr Adolygiad o'r Polisi Adnoddau Dynol, Absenoldeb Salwch, Data Hyfforddiant, a Gwirfoddoli.

Cafwyd trafodaeth ynghylch yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, a gofynnodd Aelod am i'r ystadegau perthnasol gael eu cyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol, gan gynnwys nifer y swyddi oedd wedi'u 'cylchu'n goch' a nifer y swyddi sydd ar gyflog uwch.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod UNSAIN wedi bod yn rhan o'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd o'r dechrau'n deg. Ychwanegwyd bod yr ymgynghorwyr oedd yn gweithio gyda'r Awdurdod wedi cael eu cynnwys ar restr fer am wobr i gydnabod eu partneriaeth â'r Awdurdod ac Unsain i gyflawni'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn gweithio gydag UNSAIN i gytuno ar bartneriaeth o dan y ddeddfwriaeth newydd ar Bartneriaeth Gymdeithasol, a chymeradwywyd hyn gan yr Aelodau.

Holodd Aelod sut fyddai'r swyddi newydd yn cael eu gwerthuso yn y dyfodol fel y gellir cynnal cysondeb, ac ymatebodd y Swyddog bod gan yr Awdurdod weithdrefn o werthuso swyddi oedd yn cynnwys staff oedd wedi cael eu hyfforddi yn y cynllun NJC ac y byddent hwy ac Unsain yn rhan o'r asesiad mewnol o rolau a swyddi newydd yr ystyrid eu bod wedi newid yn sylfaenol.

O ran absenoldeb salwch, dywedwyd bod 27.5 diwrnod o absenoldeb salwch yn ystod mis Chwefror 2025 o'i gymharu â 77 diwrnod fis Chwefror 2024. Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth am y gwelliant hwn, a chadarnhaodd y Swyddog bod achosion o salwch hirdymor wedi bod yn 2024, ac yn ogystal, bod polisi absenoldeb salwch tymor byr â phwyntiau trothwy wedi'i gyflwyno ers hynny.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch cynllunio olyniaeth, ac a oedd unrhyw wasanaethau 'bregus' o fewn yr Awdurdod. Gofynnodd yr Aelodau am i'r gwasanaethau bregus gael eu clustnodi i'w trafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau yn falch i glywed am y wybodaeth a gyflwynwyd ynghylch yr oriau a gyfrannwyd i'r Awdurdod gan y Gwirfoddolwyr.

**Nodwyd*.***